



10 Cilomedr CAERFFILI

10am, DYDD SUL 22ain MEHEFIN 2014

Gweler tud. 3 am fanylion

Arweinydd a Maer newydd yn cael eu cyhoeddi

Mae'r Cyng. Keith Reynolds wedi cael ei ethol fel Arweinydd newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn dilyn cyhoeddiad Cyng. Harry Andrews i ymddeol fel Arweinydd y Cyngor, yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor mis diwethaf.

Mae Keith, sy'n cynrychioli ward Aberbargod, wedi bod yn rhan o lywodraeth leol am 35 mlynedd.

Dywedodd: "I gael fy ethol i arwain beth rwyf wir yn credu i fod ymhlith yr awdurdodau lleol gorau yng Nghymru, yn wir anrhydedd i mi. Mae'r anrhydedd hon, wrth gwrs, yn un ychydig yn drist hefyd, o ran ein bod wedi colli ffrind a chydweithiwr gwych yn y Cyng. Harry Andrews o Gabinet y cyngor.

"Bydd dilyn Harry yn dasg anodd, ond gallaf sicrhau fy mod wedi dysgu o'r gorau - ac rwy'n edrych ar fy rôl newydd gyda phenderfynoldeb ac egni wrth symud ymlaen.

"Fel cynghorau ar draws hyd a lled Cymru, mae'r cyngor hwn yn parhau i wynebu heriau. Ond rwy'n credu'n gryf, gyda'n gweithlu ymroddedig a thalentog ac ymrwymiad parhaol aelodau a swyddogion ar draws

y cyngor, gallwn gwrdd â'r heriau hyn sydd o'n blaen, a pharhau i wneud beth rydym i gyd yma i wneud yn y bôn: darparu gwasanaethau ansawdd uchel, gwerth eu harian i drigolion bwrdeistref sirol Caerffili."

Cafodd Maer newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, Cyng. David Carter hefyd ei ethol yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor.

Dywedodd Cyng. David Carter, "Mae'n wir anrhydedd i gael fy newis fel y Maer newydd, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at y cyfleoedd a heriau y bydd fy mlwyddyn yn y rôl yn ei gynnig. Ar ôl byw yn y fwrdeistref sirol ar hyd fy mywyd, rwyf yn awyddus i gynrychioli'r bobl ym mwrdeistref sirol Caerffili, ac rwyf wir yn edrych ymlaen at gwrdd â chymaint o bobl newydd dros y flwyddyn i ddod".

Mae David wedi byw ym Margod ar hyd ei fywyd, ac wedi cynrychioli ward Bargod fel aelod lleol am y 10 mlynedd diwethaf.

Elusennau y mae Cyng. Carter wedi dewis ar gyfer y flwyddyn i ddod yw Apêl pabîr Llang Prydeinig Brenhinol a Chychwyn Cyntaf Caerffili. Mae'n gobeithio codi cymaint ag arian ag sy'n bosib yn ystod ei amser fel Maer ar gyfer yr achosion teilwng iawn hyn.

Mae'r Dirprwy Maer hefyd wedi cael ei gyhoeddi sef Cyng. Leon Gardiner, sy'n cynrychioli ward Argoed.

Parhau ar dud 2...



Cyng. Keith Reynolds



Cyng. David Carter

Eich Aelodau Cabinet:

Yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor diweddar fe wnaeth Arweinydd y Cyngor Cyng. Keith Reynolds, sydd newydd gael ei ethol, gadarnhau aelodau ei Cabinet. **Y rhain yw:**



Cyng. Keith Reynolds
Arweinydd y Cyngor



Cyng. Gerald Jones
Dirprwy Arweinydd
ac Aelod Cabinet
dros Dai



Cyng. Barbara Jones
Dirprwy Arweinydd
ac Aelod Cabinet dros
Wasanaethau Corfforaethol



Cyng. Robin Woodyatt
Aelod Cabinet
dros Wasanaethau
Cymdeithasol



Cyng. David Poole
Aelod Cabinet
dros Wasanaethau
Cymunedol a Hamdden



Cyng. Ken James
Aelod Cabinet
dros Adfywio,
Cynllunio a Datblygu
Cynaliadwy



Cyng. Rhianon Passmore
Aelod Cabinet
dros Addysg a
Dysgu Gydol Oes



Cyng. Tom Williams
Aelod Cabinet
dros Briffyrdd,
Cludiant a
Pheirianeg



Cyng. Christine Forehead
Aelod Cabinet dros
Adnoddau Dynol
a Rheolwraig Trefn
Lywodraethol/Busnes



Cyng. David Hardacre
Aelod Cabinet
dros Berfformiad a
Rheoli Asedau

Diwrnod ym mywyd Swyddog Chwaraeon Caerffili

Fel Swyddog Arweiniol dros Chwaraeon Caerffili, Mae Nikki Upton yn gweithio o fewn Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden i gael mwy o bobl yn fwy gweithgar, yn fwy aml.

Dyma ddiwrnod arferol ym mywyd Nikki:

8.45am: Rwy'n dosbarthu hyfforddiant Sports Leaders UK PlayMaker Award i ddisgyblion Blwyddyn 6. Mae'r PlayMaker Award yn helpu plant i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a hyder ac yn galluogi iddynt drefnu gemau yn ystod amserau egwyl, sydd yn annog mwy o weithgareddau cofforol.

1pm: Rwy'n ymweld ag ysgol gyfun er mwyn rhannu syniadau gyda rhai Arweinwyr Chwaraeon Blwyddyn 9 sydd wedi cwblhau eu Cymhwyster Arweinwyr Chwaraeon Lefel 1 DU mewn Arweinyddiaeth Chwaraeon yn ddiweddar. Bydd yr arweinwyr hyn yn cynnig cymorth mewn clybiau ar ôl ysgol mewn ysgolion cynradd lleol cyn bo hir.

2pm: Yn y swyddfa rwy'n cysylltu â'r holl ysgolion cynradd sydd yn barod i gymryd rhan mewn cystadleuaeth arweinyddiaeth i ddod, a fydd yn profi gwybodaeth ein 'PlayMakers' sydd yn newydd cymwysedig.

3pm: Dwi'n teithio unwaith eto, yn anelu at ysgol gynradd lle rwy'n arsylwi Trefnwyr Pobl Ifanc Gweithgar (AYPs) yn arwain sesiwn Campau'r Ddraig mewn clwb ar ôl ysgol.

4.30pm: Yn ôl yn y swyddfa rwy'n ysgrifennu fy adroddiad mentora o'r arsylwad Trefnwyr Pobl Ifanc Gweithgar.

6-7pm: Ar ôl mynd adref am ychydig dwi yn ôl yn y gwaith. Y tro hwn rwy'n hyfforddi clwb hoci iau wnes i helpu sefydlu. Fe ddechreuon ni gyda 8 o blant ac nawr mae 22 o blant yn dod bob wythnos. Mae fy swydd yn wobrwyl iawn. Rwyf wastad wedi mwynhau

chwaraeon ac fe wnes i gystadlu mewn beicio a pêl-rwyd pan oeddwn yn iau ac rwyf dal i gystadlu mewn hoci hyd heddiw felly mae'n teimlo'n wych bod fy swydd yn ymwneud a chwaraeon hefyd.




Hoffwch dudalen Facebook Chwaraeon Caerffili ar
www.facebook.com/sportcaerphilly.

10 Cilomedr CAERFFILI

10am, DYDD SUL 22ain MEHEFIN 2014



Allwedd ffyrdd ar gau



- Ar gau yn llwyr 7am tan 1pm
- Ar gau yn llwyr 9.00am tan 12pm
- Ar gau yn llwyr 9.30am tan 12pm
- a ⊘ B4600 yn Sgwâr Piccadilly ar gau o 9.30am tan 10.15am
- Ar gau yn llwyr 9.30am tan 10.45am
- Ar gau i draffig tua'r dwyrain (Cylchfan y Cedar Tree i Gylchfan Pont Bedwas) 9am tan 11.30am
- b ⊘ Dim mynediad i Barc Manwerthu Gallagher o 9am tan 11.30am o'r A468
- Ar gau yn llwyr o 9.30am tan 12pm
- Mynediad ar gael o Mornington Meadows a Barc Lansbury

Mae'r cwrs 6.2 milltir o hyd yn arwain cyfranogion i mewn ac o gwmpas canol y dref, gyda'r llinell gychwyn a gorffen wedi ei leoli ar Heol y Cilgant, sydd wrth gwrs dan gysgod Castell Caerffili. Bydd angen i nifer o ffyrdd cael eu cau a chyfyngiadau traffic cael eu gosod rhwng 7.00am ac 1.00pm er mewn galluogi i'r digwyddiad rhedeg yn ddiogel. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ail agor ffyrdd cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i'w wneud, ond mae'n anochel y bydd rhai ymyrraeth i mewn ac o gwmpas y dref.

Mae'r map yn dangos y llwybr lawn a'r ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan gaefeydd ffyrdd. Anogwn fod preswylwyr yn nodi hwn, ac fe ddylai modurwyr sy'n bwriadu teithio drwy'r ardal ar fore Dydd Sul 22ain Mehefin ddefnyddio modd arall. Mae'r 10cilomedr Caerffili ar agor i redwyr o bob gallu sydd dros 15 oed. Cost cofrestru yw £14, tra bod redwyr clwb a chonsesiynau ond yn £12 gyda thâl archebu ar-lein o £1.50.

Mae ras 2cilomedr lau o gwmpas Castell Caerffili hefyd yn cael ei gynnal ar y diwrnod. Cost mynediad yw £3, gyda thâl archebu ar-lein o £1.50. Rhaid i blant sy'n cymryd rhan fod yn 8 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod y ras er mwyn mynychu. Bydd Chwaraeon Caerffili hefyd yn cynnal Parc Chwaraeon y Gymanwlad arbennig trwy'r dydd ar y llinell terfyn i deuluoedd trio nifer o chwaraeon gwahanol.



Bydd miloedd o redwyr yn ymgynnull yng Nghaerffili ar Ddydd Sul 22ain Mehefin gan fod y 10cilomedr Caerffili yn dychwelyd am yr ail flwyddyn!

I gofrestru neu ar gyfer manylion pellach, ewch i www.caerffili.gov.uk/10cilomedr

Tîm priffyrdd yn dathlu llwyddiant gwobrau

Mae tîm Priffyrdd y cyngor yn dathlu ar ôl derbyn nifer o wobrau mawreddog.

Yn ddiweddar fe gafodd y tîm eu hanrhydeddu gyda dwy wobwr genedlaethol o'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE). Dyfarnwyd i Weithredydd Priffyrdd Ifanc Michael Davies, 23, teitl Prentis y Flwyddyn, tra derbyniodd yr isadran y wobwr Rhagoriaeth mewn Safonau Hyfforddi ar gyfer ei gynllun prentisiaeth.

Yn y cyfamser, roedd aelodau o isadran Priffyrdd y cyngor wedi ymuno a â myfyrwyr o Ysgol Lewis i Ferched i ferched i gefnogi dyluniad arloesol gwobrwyol y merched.

Gweithiodd y tîm Priffyrdd gyda wyth o fyfyrwyr o Ysgol Lewis i Ferched fel rhan o'r prosiect Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) i ddatblygu ateb i broblem peirianeg. Datblygodd y merched cysyniad o dag Adnabod Amledd Radio (RFID) ar gyfer beicwyr a beicwyr modur a fydd yn ysgogi arwyddion y ffyrdd gerllaw i rybuddio defnyddwyr y ffyrdd eraill o'u presenoldeb yn yr ardal.

Enillodd y syniad cymeradwyaeth oddi wrth feirniaid y gystadleuaeth ar gyfer cynyddu diogelwch y ffyrdd a chael y potensial i annog mwy o bobl i feicio yn hytrach na defnyddio cerbyd modur, felly'n lleihau allyriadau carbon y fwrdeistref sirol.



Cynrychiolwyr y tîm Priffyrdd Gareth Richards a Michael Davies yn arddangos eu gwobrau APSE gyda'r cyn Faer Cyng. Michael Gray.

Dewiswch y Stryd Fawr!

Dewiswch y
STRYD FAWR
Canol Trefi - Mannau Unigryw

Mae preswylwyr ac ymwelwyr bwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu hannog i 'Ddewis y Stryd Fawr' wrth i dîm Rheoli Canol Trefi'r cyngor lansio ymgyrch newydd i godi ymwybyddiaeth o unigolrwydd o'r hyn sydd ar gael ym mhob un o'r canol trefi.

Bydd y fenter yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd dewis prynwyr, a gweithio i annog pobl i ddefnyddio eu stryd fawr leol yn fwy aml. Tra bod preswylwyr ac ymwelwyr yn parhau i ddangos eu cefnogaeth ar gyfer eu canol trefi lleol, gydag adroddiadau yn dangos niferoedd swm traed cyson dros fisoedd yr haf mewn canol trefi ar draws y fwrdeistref sirol dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ymgyrch yn anelu at adeiladu o'r llwyddiant hwn, ac arddangos i breswylwyr ac ymwelwyr fod gan bob ganol tref rheswm i fynd i'w ymweld. Yn ystod yr haf 2013 (dechrau mis Mai hyd at ddiwedd mis Medi), fe welodd Coed Duon yn benodol cynnydd yn y nifer o ymwelwyr i ganol y dref, o 715,229 yn yr haf 2012 i 762,570 yn yr haf 2013.

Dyweddodd Cyng. Ken James, "Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gadw ein heconomiâu lleol yn ffyniannus, ac mae'r ymgyrch newydd hon yn anelu at annog preswylwyr yn ogystal ag ymwelwyr i'n bwrdeistref sirol er mwyn defnyddio ein canol tref unigryw. Rwy'n falch i weld, trwy gynnydd yn y niferoedd swm traed, bod preswylwyr yn parhau i rannu brwdfrydedd y cyngor mewn cefnogi masnachwyr a sefydliadau lleol, ac mae'r ymgyrch 'Dewiswch y Stryd Fawr' yn anelu at fynd un cam ymhellach i arddangos i breswylwyr ac ymwelwyr bod yna rhesymau unigryw iawn pam y dylent ddewis i siopa yng nghanol trefi ein bwrdeistref sirol."

Bydd yr ymgyrch 'Dewiswch y Stryd Fawr' a hefyd yn annog busnesau newydd i agor yng nghanol trefi.

Gallwch ddarganfod manylion pellach ar yr ymgyrch 'Dewiswch y Stryd Fawr' ar www.caerffili.gov.uk neu trwy ffonio 01443 866 213.



Ymunodd Simon a Trish, Perchenogion 'Must Have Music & Impact' yng Nghoed Duon â'r Cyng. Ken James i lansio'r ymgyrch.

■ Ar gyfer Siopa ■ Ar gyfer Busnes ■ Ar gyfer Bywyd

Mae urddas yn cyfrî

Mae'r Bartneriaeth Gweithred Bositif 50+ yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn gwella'r ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin mewn cartrefi preswyl ar draws y fwrdeistref sirol.

Yn ddiweddar mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Urddas a Pharch newydd ar gyfer Cartrefi Preswyl. Mae'r cod hwn yn anelu at gynnal a chadw hawliau ac urddas personol y bobl sy'n byw mewn cartrefi preswyl, a sicrhau bod ansawdd bywyd yn integrol i wasanaethau. Bydd y Bartneriaeth Gweithred Bositif 50+ yn gweithio gyda staff Gwasanaethau Cymdeithasol, preswylwyr a staff cartrefi preswyl dros y misoedd i ddod i sicrhau bod preswylwyr a staff yn ymwybodol ac yn deall y cod ymarfer. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn gweithio â fforwm 50+ Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ar brosiect "Llais Cymunedol" 4 blynedd a fydd yn sicrhau bod pobl hŷn mewn gofal preswyl yn cael cyfle i leisio eu barn am y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw.

Dyweddodd y Cyng. Robin Woodyatt: "Mae hwn yn un o'r ffyrdd ymarferol iawn mae Gweithred Bositif 50+ yn gwneud gwahaniaeth mawr i breswylwyr 50+ yn y fwrdeistref sirol. Rydym yn credu bod urddas a pharch yn hawl sylfaenol a byddwn yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau bod pawb rydym yn cefnogi yn cael eu trin yn briodol."

**Am fanylion pellach ffoniwch 01443 864277
neu ebostiwch: 50plws@caerffili.gov.uk**



Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn eich cymuned, neu wedi mynd milltir yn ychwanegol i helpu eraill? Beth am eu henwebu ar gyfer gwobr Trawsnewid Bywydau a Chymunedau?

Mae'r gwobrau yn gyfle i gydnabod pobl sydd yn helpu i drawsnewid bywydau tenantiaid y cyngor a'r cymunedau lle maent yn byw.

Mae yna bedwar categori gwobr:

■ **Person Ifanc y Flwyddyn**

I gydnabod rhywun o dan 21 oed, sy'n byw mewn eiddo'r cyngor, sydd wedi gwneud gwahaniaeth i eraill neu eu cymuned leol.

■ **Gwobr Trawsnewid Bywydau - Unigolyn**

Tenant y cyngor sy'n gwneud mwy na'r gofyn, yn trawsnewid bywydau eraill.

■ **Gwobr Trawsffurfio Cymunedau - Grŵp**

Grŵp y mae eu gwaith wedi helpu i drawsnewid eu cymuned leol ac wedi buddio tenantiaid y cyngor.

■ **Y Wobr 'Milltir Ychwanegol' - Cyflogai Cartrefi Caerffili**

Ar gyfer aelod o staff sydd wedi mynd milltir yn ychwanegol i wneud gwahaniaeth i denantiaid y cyngor.

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf neu i ofyn am ffurflen enwebu, cysylltwch â Thîm Trawsffurfio Bywydau a Chymunedau Cartrefi Caerffili ar **01443 866493** neu trwy e-bostio: morgao@caerffili.gov.uk. Bydd yr holl enwebeion yn cael eu gwahodd i fynychu seremoni wobrwyo ym mis Awst lle fydd yr enillwyr a goreuon y gweddill yn cael eu cyhoeddi.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw Dydd Gwener 27ain Mehefin



Newidiadau i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Bydd y cyngor yn cyflwyno nifer o reolaethau newydd ar gyfer faniau ac ôl-gerbydau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref - a elwir hefyd yn safleoedd Amwynder Dinesig- ar draws y fwrdeistref sirol o'r 1af Gorffennaf 2014.

Bydd taliadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer faniau bach ac ôl-gerbydau bach i gael gwared ar wastraff y cartref yng Nghanolffannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y fwrdeistref sirol:

- **£35 ar gyfer car sy'n deillio o faniau** (er enghraifft, faniau 'Escort', faniau Transit Connect a threlars llai nag 1.8 metr o hyd).
- **£70 ar gyfer faniau mwy o faint** (hyd at faint Ford Transit).
- **Ni fydd faniau sy'n fwy na maint Ford Transit** e.e. Faniau Luton, Loriau Codi a threlars sydd yn fwy nag 1.8 metr o hyd yn gallu cael mynediad at y safleoedd.

Bydd y taliadau, a fydd yn dod i rym o'r 1af Gorffennaf, yn cael eu gweithredu drwy brynu trwydded tipio ymlaen llaw oddi wrth un o swyddfeydd arian parod neu Gwsmer yn Gyntaf wedi'u leoli ar draws y fwrdeistref sirol. Bydd y drwydded yn rai untro, mewn safle enwebedig gyda slot amser penodol a bydd angen rhoi'r drwydded i mewn yn y Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref cyn cael gwared ar unrhyw ddeunyddiau.

Er mwyn sicrhau bod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn cael eu defnyddio gan breswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili yn unig, fe fydd angen prawf preswylfa a'r ddogfen cofrestru'r cerbyd ar gyfer y cerbyd ddosbarthu er mwyn prynu'r drwydded. Fe fydd cyfyngiadau ar y niferoedd o wastraff peryglus sy'n cael ei dderbyn mewn faniau o dan y cynllun newydd e.e. asbestos, paent/cemegion ayyb.

Mae'r rheolaethau newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn atal camddefnydd y safleoedd gan fusnesau ac i adennill rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r niferoedd mawr o wastraff, sydd fel arfer yn gysylltiedig â dosbarthiad gan faniau/trelars. Nid yw busnesau masnachol yn gymwys i gael gwared ar wastraff yn unrhyw un o'r safleoedd a gallent wynebu erlyniad



os caent eu dal yn defnyddio'r safleoedd.

Ni fydd preswylwyr sy'n defnyddio ceir i gludo gwastraff y cartref (tua 95% o'r niferoedd sy'n defnyddio'r safle) yn cael eu heffeithio gan y taliadau.

Am wybodaeth bellach ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 866 533

Dweud eich dweud ar dai

Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol er mwyn ailwampio a symleiddio'r ffordd y mae pobl yn ceisio am dai cymdeithasol ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygiad o gofrestr tai cyffredin a chyflwyniad o bolisi dyrannu cyffredin.

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor a phob un o'r cymdeithasau tai yn cynnal rhestr aros eu hun ac yn dewis ymgeiswyr i fod yn denantiaid ar sail polisiâu eu hunan. Mae'r sefyllfa yn gallu bod yn gymhleth i bobl sy'n edrych am dai. Bydd y system newydd sydd yn cael ei ddatblygu yn creu un pwynt mynediad ac asesu, sy'n gwneud y broses o geisio am dai yn fwy syml.

Cyn hir byddwn yn ymgynghori â phobl a sefydliadau ar fersiwn drafft o'r polisi dyrannu cyffredin. Bydd y gweithgaredd ymgynghori yn para am 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn edrych i siarad â chymaint o bobl a phosib am y newidiadau. Pan fydd y cyfnod ymgynghori yn cau, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a chwblhau'r polisi. Bydd y cyngor yn cadarnhau'r polisi a gofyn i bob un o'r cymdeithasau tai i'w lofnodi.

Disgwylir i'r gofrestr tai cyffredin a'r polisi dyrannu cyffredin fod mewn lle erbyn yr haf yn 2015.

Am ragor o wybodaeth:

Ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch **01495 235 216** neu **e-bostiwch:** taisectorpreifat@caerffili.gov.uk.

Cyng. Tom Williams yn ymuno ag Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili i nodi 10fed pen-blwydd eu Bws Cerdded.



Dathliad dwbl ar gyfer teithio cynaliadwy

Roedd mis Mai yn gyfnod o ddathlu ar gyfer Tîm Diogelwch y Ffordd y cyngor wrth iddynt ddathlu llwybrau diogel hen a newydd i'r ysgol.

Ar ddechrau'r mis aeth y Tîm Diogelwch y Ffordd i ymweld ag Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili i ddathlu i ddathlu 10fed pen-blwydd y cynllun bws gerdded gyntaf yn y fwrdeistref sirol.

Fe wnaeth y bws gerdded gyntaf oll wneud ei ffordd i'r ysgol ym mis Mai 2004, ac mae disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili wedi bod yn ei ddefnyddio fel llwybr diogel ers hynny. Mewn gwirionedd, mae 15 ysgol gynradd o amgylch y fwrdeistref sirol nawr yn cefnogi'r cynllun bws gerdded, sydd yn darparu ffordd i blant gerdded i'r ysgol gyda'u ffrindiau, darparu awyr iach ac ymarfer corff a hefyd yn helpu i leihau tagfa traffig.

Yn hwyrach ym mis Mai fe wnaeth y Tîm Diogelwch ar y Ffordd/Cludiant gynnal digwyddiad lansio yn Ysgol Gynradd Deri i hybu'r defnydd o deithio cynaliadwy yn y pentref. Cafodd y cynllun gwella ei gynnal ar ôl asesiad o gynllun teithio'r ysgol. Gwelodd gweithfeydd llwybr yn cael ei osod gyda tharmac newydd a gweithfeydd pontydd, gan gynnwys defnydd o ddeunydd llawr gwrth gwmpo, eu cynnal i wneud y llwybr yn fwy cyraeddadwy ar gyfer bws gerdded yr ysgol a'r gymuned ehangach trwy'r flwyddyn gyfan. Cafodd y prosiect ei ariannu trwy fenter 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01443 235402 neu ewch i adran diogelwch y ffordd ar wefan y cyngor www.caerffili.gov.uk

Taclo Tatŵo Anghyfreithlon

Mae Tîm Iechyd yr Amgylchedd y cyngor yn gweithio'n galed i daclo'r mater o datŵo anghyfreithlon ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Mae tatŵo yn anghyfreithlon os ydych chi'n cael ei gynnal gan berson heb drwydded tatŵo ac/neu sydd mewn adeilad sydd ddim wedi cofrestru â'r cyngor ar gyfer tatŵo. Mae hefyd yn anghyfreithlon i ymgymryd â thatŵo ar berson sy'n iau na 18 mlwydd oed.

Gyda'r enw cyffredin 'scratchers', mae'r rheini sydd yn cynnal tatŵo anghyfreithlon yn rhoi cleientiaid mewn perygl o draws-halgiad a heintiau, a gall amrywio o heintiau'r croen bach i'r rheini sydd yn gallu bygwth bywydau oherwydd bod yr arferion a'r adeiladau yn aml yn anaddas ac yn aflan. Mae cleientiaid hefyd mewn perygl o gael anffurfiad parhaol trwy gelfwaith a sillafu gwael a thechnegau tatŵo gwael.

Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn ymgymryd ag archwiliadau arferol a stiwdios tatŵo cofrestredig ar draws y fwrdeistref sirol i sicrhau bod y safonau hylendid llym yn cael eu cynnal er mwyn lleihau'r perygl o heintiau. Mae gan swyddogion bellach y pwerau sydd yn galluogi atafaeliad o gyfarpar ac i datwyddion anghofrestredig i gael gorchymyn i roi'r gorau i weithredu gan y llysoedd. Mae'r cyngor wedi cymryd nifer o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn tatwyddion anghofrestredig.

Am wybodaeth bellach, neu i adrodd am rywun gall fod yn tatŵo'n anghyfreithlon ffoniwch **01495 235 278**. Mae gwybodaeth bellach ar datŵo a rhestr o'r stiwdios tatŵo cofrestredig sy'n gweithredu ym mwrdeistref sirol Caerffili ar gael ar www.caerffili.gov.uk



CALENDR DIGWYDDIADAU'R HAF

BETH SY'N DIGWYDD ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

MEHEFIN

Parti Traeth Coed Duon

28ain - 29ain Mehefin

GORFFENAF

Sioe Amaethyddol Machen

5ed Gorffennaf

Diwrnod Twmpath a Hwyl i'r Teulu

12fed Gorffennaf (Parc Tredegar, Rhisga)

Sioe Fodelau Cymru - Byw Mewn Byd Bach

13eg Gorffennaf (Maenordy Llancaiach Fawr)

Gŵyl y Caws Mawr

25ain - 27ain Gorffennaf (Caerffili)

AWST

Carnifal Coed Duon

2il Awst

Ein Dyletswydd i Ddwyn Arfau: Y Rhyfel Byd Cyntaf a Bwrdeistref Sirol Caerffili

ARDDANGOSFA NEWYDD yn agor 2il Awst - Haf 2015
(Y Tŷ Weindio, Tredegar Newydd)

Sioe Amaethyddol Bedwellte

16eg Awst

MEDI

Sinema Awyr Agored Bargod

20fed Medi

www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau
Llinell Ddigwyddiadau: 029 2088 0011

Dilynwch ni ar Twitter  visit [caerphilly](https://twitter.com/caerphilly)
Ymwelwch â ni ar Facebook  visit [caerphilly](https://www.facebook.com/caerphilly)



A greener place to live, work and visit
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld



Darparu gwasanaethau yng nghalon y gymuned

Mae'r cyngor wedi cymryd drosodd canolfan gwasanaethau cwsmer symudol newydd yn ddiweddar, a fydd yn gwneud mynediad i wasanaethau'r cyngor llawer yn haws ar gyfer miloedd o drigolion bwrdeistref sirol Caerffili.



Bydd y cerbyd yn ymweld â nifer o drefi a phentrefi mwyaf gwledig y fwrdeistref sirol yn wythnosol, ac yn cynnig ystod eang o wasanaethau'r cyngor gan gynnwys:

- Talu treth y cyngor/rhent y cyngor
- Ymholiadau treth y cyngor
- Gofyn am atgyweiriadau tai'r cyngor
- Gwneud cais am docyn teithio ar gyfer pobl hŷn
- Gwneud cais am fathodyn parcio person anabl (Bathodyn Las)
- Chwilio am swyddi gwag presennol y cyngor
- Gwneud cais am bethau fel casglu gwastraff swmpus, adrodd am geubyllau neu oleuadau stryd wedi torri ayb

Bydd y ganolfan gwasanaethau cwsmer symudol yn cael ei weithredu ym mis Gorffennaf, ac yn ymweld â chymunedau yn Nhrinant, Rhymni, Ynys-ddu, Tŷ Sign, Tredegar Newydd, Deri, Senghenydd, Nelson, Cefn-y-pant, Gelligaer, Markham, Oakdale, Fochriw a Bedwas.

Dywedodd Cyng. Barbara Jones, "Ein prif fwriad wrth ddarparu'r gwasanaeth newydd hwn yw sicrhau fod gan drigolion ein bwrdeistref sirol mynediad hawdd at wasanaethau'r cyngor mewn fformat sy'n well ganddynt. Trwy gyflwyno hyn roedd y cyfleuster canolfan gwasanaethau cwsmer symudol yn gallu darparu gwasanaethau allweddol y cyngor yng nghalon nifer o gymunedau mwy gwledig, a fydd yn cael ei groesawu'n gynnes gan ein trigolion rwy'n siŵr."

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio 01443 864 143.

Dileu Camdriniaeth Diwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Pobl Hyn y Byd

I nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Pobl Hyn y Byd fe wnaeth tîm Amddiffyn Oedolion Archolledig y Gwasanaethau Cymdeithasol lansio dwy ffilm fer sydd yn arddangos ar sianel YouTube y Cyngor sef www.youtube.com/caerphillycbctv

Mae'r ffilmiau wedi eu cynllunio i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall beth ydy camdriniaeth a phwy sydd ar gael i roi cymorth. Mae'r ffilmiau yn cynnig cymorth ac arweiniad ar atal ac adrodd camdriniaeth. Y themâu amlwg yw 'Cadw'n Ddiogel' ac 'Fe Wnaethant Helpu'n Fawr'. Os ydych yn pryderu drosoch chi'ch hyn neu rywun yr ydych yn adnabod cysylltwch â ni ar **0808 100 2500** am gyngor.

Partneriaeth yn dathlu 20fed pen-blwydd

Am fwy nag 20 mlynedd, mae trigolion bwrdeistref sirol Caerffili wedi mwynhau cyfeillgarwch arbennig gyda thrigolion Pisek wedi ei leoli yng nghanol Y Weriniaeth Tsiec.

Wedi ei sefydlu yn gyntaf yn 1994, ffurfiwyd y bartneriaeth wreiddiol gyda chyn Gyngor Sir Islwyn ac fe barhawyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dilyn ad-drefniad yn 1996. Mae'r trefi, sydd bron 1,000 o filltiroedd ar wahân, yn rhannu treftadaeth mwyngloddio cyfoethog a thirlun traddodiadol. Mae'r angerdd tuag at gerddoriaeth a'r celfyddydau wedi bod yn thema bwysig wrth gyfnewid dros y blynyddoedd. Er mwyn dathlu'r pen-blwydd, teithiodd y côr Sborissimo o Pisek i aros gydag aelodau o Gorws Cymunedol Caerffili yn ddiweddar er mwyn cymryd rhan mewn cyngerdd arbennig. Mae dathliadau pellach yn cynnwys seremoni arbennig er mwyn nodi'r achlysur yn siambr y cyngor ym mis Gorffennaf. Os oes unrhyw straeon am gyfnewidiau hanesyddol gennych yr hoffech rannu neu am fanylion pellach ffoniwch **01443 863218**.



Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn agor



Warren Gatland, Mark Williams CBSC ac Andrew Coombs yn trio'r cyfleusterau newydd.

Cafodd y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Caerffili newydd sbon ei agor yn swyddogol yn ddiweddar gyda help Warren Gatland a seren Dreigiau Casnewydd Gwent, Andrew Coombs.

ddarparu man hyfforddiant dosbarth cyntaf ar gyfer chwaraewyr rygbi a phêl-droed elitaidd a llwyddiannus i ddatblygu eu cryfder a'i sgiliau trwy ddefnyddio'r swit cyflyru uchelfan a'r ddau gae 3G safon ryngwladol.

Bydd y Dreigiau Casnewydd Gwent yn

Plant o ysgolion cynradd ar draws y fwrdeistref sirol oedd y cyntaf i roi prawf ar y caeau 3G newydd, trwy gymryd rhan mewn twrnamaint pêl-droed a driliau rygbi gyda hyfforddwr Cymru. Yn y cyfamser fe wnaeth y Gweinidog dros Chwaraeon a Diwylliant, John Griffiths AC, ymuno â gwesteion eraill ar daith o'r adeilad anhygoel.

Mae'r cyfleuster blaenllaw newydd wedi ei osod i

defnyddio'r cyfleuster fel canolfan rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant ac ar gyfer gemau datblygu, tra bydd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn rhedeg academi datblygu o'r ganolfan. Bydd myfyrwyr o Goleg y Cymoedd hefyd yn cael mynediad at y cyfleusterau a bydd y clybiau cymunedol yn cael mynediad at y caeau 3G ar sail archebu flaenoriaethol, wedi seilio ar feini prawf llym o'r Undeb Rygbi Cymru ac Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru.

Nododd y Cyng. Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi newid tirlun Ystrad Mynach a bydd yn darparu cyfleuster o'r safon uchaf ar gyfer athletwyr elitaidd a thalent ifanc addawol i hogi a datblygu eu sgiliau yn rygbi a phêl-droed. Bydd y buddsoddiad yr ydym wedi gwneud mewn datblygu'r cyfleuster yn cefnogi perfformiad uchel ond hefyd yn galluogi i glybiau cymunedol i gael cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau y gallent ond freuddwydio amdano!"

Mae Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei gefnogi gan Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru ac Ymddiriedolaeth y gallent ond freuddwydio amdano!"

Canolfan Rhymni yn agor ei ddrysau

Mae'r Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni wedi agor ei ddrysau i breswylwyr yn ddiweddar, Ei Uchelder Brenhinol Dug Wessex wnaeth dadorchuddio'r cyfleuster nodedig newydd.

Mae'r ganolfan, sydd yn gwasanaethu'r cymunedau yng ngogledd bwrdeistref sirol Caerffili, yn cyflenwi'r ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd o Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach.

Yn ogystal, mae'r ganolfan yn gweithredu fel canolfan ar gyfer Staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sy'n gweithio yng ngogledd y fwrdeistref sirol sy'n darparu gofal i blant, pobl hŷn, a phobl sy'n derbyn cefnogaeth iechyd y meddwl.

Mae'r cyfleuster yn cynnig gwasanaethau gan gynnwys practisau meddygon teulu Rhymni, practis deintyddol, swit optometreg, fferyllfa, clinigau cleifion allanol a chyfleusterau dydd y gwasanaethau cymdeithasol i gyd o dan un to. Mae yna 12 gwely claf preswyl, a dau ohonynt wedi'i dylunio ar gyfer gofal lliniarol.

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

David Jenkins OBE, "Roeddem yn falch iawn i groesawu Ddug Wessex i agor y ganolfan. Nid yn unig fydd y ganolfan newydd yn darparu ystod o wasanaethau lleol, ond fel canolbwynt pwysig, bydd yn rhoi cefnogaeth i'r gwasanaethau yr ydym yn darparu o Ysbyty Ystrad Fawr."

Ychwanegodd Cyng. Robin Woodyatt, "Mae'r cyfleuster gwyh hwn yn datblygu i fod yn ganolbwynt i'r gymuned yn barod, yn cynnal ystod o

wasanaethau i gwrdd ag ystod eang o anghenion gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer preswylwyr lleol."

Roedd fforwm cymunedol, yn cynnwys preswylwyr lleol, sefydliadau gwirfoddol, aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a chymdeithasol yn cymryd rhan yng nghynllunio'r datblygiad nodedig hwn, yn sicrhau barn leol ar y cyfleusterau a gynigwyd.



Ei Uchelder Brenhinol Dug Wessex yn dadorchuddio'r cyfleuster newydd



Chwifio'r Faner am Ddiwrnod y Lluoedd Arfog

Mae dathlu a chydabod cymunedau Lluoedd Arfog y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn fater pwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn ymuno a channoedd o sefydliadau ar draws y wlad bydd Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyng. David Carter yn arwain gwesteion trwy godi baner Diwrnod y Lluoedd Arfog mewn modd cymunedol ar Sgwâr Siloh, Ystrad Mynach am 10:30am ar Ddydd Sadwrn 21ain Mehefin. Wedi'i drefnu mewn partneriaeth â'r Llen Prydeinig Brenhinol, mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn un o'r digwyddiadau y mae'r cyngor yn mynd i gynnal i ddathlu'r gymuned Lluoedd Arfog ac i gofio arwyr syrthiedig yn ystod hwn, y canfed flwyddyn ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn dilyn gweithrediadau ffurfiol, mae gwesteion yn cael eu gwahodd i fwynhau arddangosfa ac adloniant cerddorol a fydd yn meddiannu Sgwâr Siloh yng nghanol tref Ystrad Mynach rhwng 10am a 3pm.

Am ragor o wybodaeth am Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, ffoniwch 01443 863218.

Useful Numbers

MAIN SWITCHBOARD
PRIF SWITSFWRDD
☎ **01443 815588**

Minicom
Minicom
☎ **01443 873626**

Emergency Number for Council Services:
Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:
☎ **01443 875500**
(Out of hours only • Allau o Oriau yn unig)

Adults' Social Services
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
☎ **0808 100 2500**

StreetPride BalchderStryd
☎ **01443 866566**

Blue Badge Bathodyn Glas ☎ **01443 866571**

Rhifau Defnyddiol

Children's Social Services
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
☎ **0808 100 1727**

Consumer Advice
Cyngor i Ddefnyddwyr
☎ **08454 04 05 06**

Council Tax Enquiries
Ymholiadau Treth y Cyngor
☎ **01443 863002**

Furniture Recycling
Ailgylchu Dodrefn
☎ **01685 846830**

Housing & Council Tax Benefits
Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims:
Rawlau Newydd: ☎ **01443 866567**

Existing Claimants:
Hawlywyr Presennol: ☎ **01443 864099**

Foster Appeal

The Council needs foster carers to care for children over the age of 10. We offer extensive support, comprehensive training & attractive fees.

If you have room in your home and time in your life, why not call **0800 587 5664**, text **78866** or visit www.caerphilly.gov.uk/fostering. Texts cost the standard network rate.

Apêl Maethu

Mae angen gofalyddion maeth ar y cyngor i ofalu am blant dros 10 oed. Rydym yn cynnig cymorth helaeth, hyfforddiant cynhwysfawr a ffioedd deniadol.

Os oes gennych le yn eich cartref ac amser yn eich bywyd, beth am ffonio **0800 587 5664**, anfon **neges destun at 78866** neu ewch i www.caerffili.gov.uk/maethu. Mae negeseuon testun yn costio'r gyfradd rhwydwaith safonol.

FOOD SAFETY WEEK

Washing raw chicken can spread Campylobacter, which is the most common cause of food poisoning in the UK. Splashing caused by washing raw chicken can spread Campylobacter onto other surfaces, other food, skin, clothing and equipment, which can lead to serious illness. Thorough cooking kills Campylobacter.

Help keep your family safe from the risk of food poisoning by following this advice:

Cook chicken thoroughly

- Cook chicken thoroughly until it is steaming hot in the middle and the juices run clear. This will kill any harmful bacteria that may be present.

Chilling

- Make sure the fridge temperature is running below 5°C, and store raw poultry at the bottom of the fridge and properly wrap or cover it to avoid raw juices contaminating other foods.

Avoiding Cross Contamination

- Cross contamination occurs when harmful germs such as Campylobacter are spread between food, surfaces and equipment. Help to prevent this by removing clutter that you don't need and washing and sanitising worktops before and after food preparation.

What's ON / Digwyddiadau

www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk

Bargoed & Blackwood Branch, Royal Welsh Fusiliers Comrades Association Cymdeithas Cymrodryr y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Cangen Bargod a Choed Duon

8pm First Friday of every month

8pm Dydd Gwener gyntaf o bob mis

The Bargoed and Blackwood Branch of the Royal Welsh Fusiliers would like to invite residents of Caerphilly county borough who have served in any of the Armed Forces to their monthly meetings in The Capel Hotel, Bargoed. For more information, contact the secretary of the Bargoed and Blackwood Branch, Mr Paul Davies.

Hoffai Cangen Bargod a Choed Duon y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig gwahodd preswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili sydd wedi gwasanaethu yn unrhyw un o'r Lluoedd Arfog i'w cyfarfodydd misol yn 'The Capel Hotel', Bargoed. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag ysgrifennydd y Cangen Bargod a Choed Duon, Mr Paul Davies.

01443 822034

The Cavern Beatles • 'The Cavern Beatles'

21/06 - 7:30pm

Blackwood Miners' Institute • Sefydlad y Glowyr Coed Duon

Get ready to dance to all the hits from The Beatles, performed by The Cavern Beatles, widely regarded to be as close to the real thing as it's possible to get. Tickets cost £18 and £17 for concessions. To book, call or visit www.blackwoodminersinstitute.com

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

Don't wash raw chicken!

That's the message for this year's Food Safety Week (w/c 16th June).

Cleaning

- Wash hands thoroughly with soap and warm water before preparing and after handling raw food such as chicken.
- Always use a chopping board. Wash the board and other utensils in hot, soapy water when you've finished using them and in between preparing raw foods such as chicken and ready-to-eat food. Use separate chopping boards for raw and ready-to-eat food.
- Wash or change dish cloths, tea towels and sponges regularly and let them dry before you use them again. Dirty, damp cloths are the perfect place for bacteria to breed.

Helpwch i gadw eich teulu yn ddiogel rhag perygl o wenwyn bwyd drwy ddilyn y cyngor canlynol:

Coginiwch gyw iâr yn ddrwyadl

- Coginiwch gyw iâr yn ddrwyadl tan ei fod yn chwillboeth yn y canol ac mae'r suddion yn glir. Bydd hwn yn lladd unrhyw facteria niweidiol a gall fod yn bresennol.

Welsh Model Show: "A World in Miniature" • Sioe Modelau Cymreig: "Byw Mewn Byd Bach"

13/07 - 10am-4pm

Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr

Model enthusiasts and novices alike will be heading to Llancaiach Fawr Manor for the Welsh Model Show, to experience a world in miniature. There will be an assortment of static displays and operating models to peruse, including trains, planes, cars, dolls houses and paintings. There will also be trade stalls and children's activities on offer. Tickets cost £5 for adults and £3.50 for concessions and children, with children under 16 getting in free with an adult.

Bydd selogion a nifyddion modelau fel ei gilydd yn mynd i Faenordy Llancaiach Fawr ar gyfer sioe Modelau Cymreig, i brofi byd bach. Fe fydd amrywiaeth o arddangosfeydd statig a modelau gweithredu i archwilio, gan gynnwys trenau, awyrennau, ceir, tai dal a phaentiadau. Hefyd fe fydd stondinau masnach a gweithgareddau plant ar gael. Mae tocynnau yn costio £5 ar gyfer oedolion a £3.50 ar gyfer consesynau a phlant, â phlan o dan 16 oed yn cael mynediad am ddim gydag oedolyn.

01495 227206

Teddy Bears' Picnic • Picnic y Tedi Bêrs

31/07 - 12:30pm-2:30pm

Cwmcam Forest Drive • Ffordd Coedwig Cwmcam

Celebrate Love Parks Week at Cwmcam Forest Drive with a Teddy Bears' Picnic! Join Fiona and her puppet friends for a unique lunchtime event, suitable for children aged 3 plus and their teddy bears. Visitors must bring along their best dressed teddy and a picnic to join in the fun. The Teddy Bear's Picnic costs £4 per child and booking is essential.

Dathlhwch Wythnos Caru Parciau yn Ffordd Coedwig Cwmcam gyda Phicnic y Tedi Bêrs! Ymunwch â Fiona a'i ffrindiau pyped am ddigwyddiad amser-cinio unigryw, yn addas ar gyfer plant 3 oed a hyn Rhaid i ymwelwyr ddod a'u tedis yn eu gwisg gorau a phicnic i ymuno â'r hwyl. Mae Picnic y Tedi Bêrs yn costio £4 y plentyn ac mae archebu'n hanfodol.

01495 272001

Shaking Tale • "Sigl-di Gwt"

26/07 - 2pm-4pm

Parc Cwm Darran • Parc Cwm Darran

Experience the lost fairy tales and folk songs of West Wales at Parc Cwm Darran, from lazy harpers to light footed fiddlers. There will also be an art and story telling workshop for children by a professional children's illustrator and writer before the performance from 2 - 3pm. The event is suitable for families and children aged 6 upwards. Tickets cost £3, with a £1 booking fee added for tickets bought online. To buy tickets, call or visit www.blackwoodminersinstitute.com

"Our Duty to Bear"

The First World War and Caerphilly county borough "Ein Dyletswydd i Ddwyn Arfau" Y Rhwyfel Byd Cyntaf a bwrdeistref sirol Caerffili

02/08 until summer 2015

Tuesday-Sunday, 10am-5pm

02/08 hyd at yr haf 2015

Mawrth-Sul, 10am-5pm

The Winding House • YTy Weindio

To mark the 100th anniversary of the start of the First World War, this new exhibition at the Winding House Museum will explore how the War affected men, women and children in Caerphilly County Borough. The exhibition will run Tuesdays to Sundays (and Bank Holiday Mondays) between 10am and 5pm until summer 2015 and admission is free.

Visit www.windinghouse.co.uk for more information

I nodi can mlynedd ers dechrau'r Rhwyfel Byd Cyntaf, bydd yr arddangosfa newydd hon yn Amgueddfar Ty Weindio yn archwilio sut wnaeth y Rhwyfel effeithio dynion, menywod a phlant ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd yr arddangosfa yn rhedeg o ddyddiau Mawrth i ddyddiau Sul (a Dyddiau Llun Gŵyl y Banc) rhwng 10am a 5pm hyd at yr haf 2015 ac mae mynediad am ddim.

Ewch i www.tyweindio.co.uk am ragor o wybodaeth.

Trading Standards prosecutions

Erlyniadau Safonau Masnach

Defendant	Offence	Court Decision
Robert Matthews, Trethomas.	25 April 2014 at Newport Magistrates Court. Using an unlicensed vehicle as a Private Hire vehicle within Caerphilly County Borough Council. Driving a vehicle which did not have the necessary "hire and reward" insurance cover.	£460 fine, £20 victim surcharge, and six penalty points on driving license. Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982. Road Traffic Act 1988.
Jenna Jane Curtis, Blackwood.	11th April 2014 at Newport Magistrates Court. Sale of alcohol to person under the age of 18.	£40 fine, £250 costs to the Local Authority and £20 victim surcharge. Licensing Act 2003.
David Williams, Wyllie.	11th April 2014 at Newport Magistrates Court. As a Director of Lonsdale Leasing Limited of Wattsville, by virtue of his negligence. 1. Gave misleading indications as to the Prices that 6 vehicles were offered for sale at. 2. Failed to indicate the selling price of a motor vehicle.	£1300 fine, £330.80 costs to the Local Authority and £120 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. Price Marking Order 2004.

We are happy to point out that the prosecution taken out against Melvin Kitchen, detailed in the last edition of Newsline, is in no way connected with the previous owner of Val's Wool Shop, Aberbargod.

Rydym yn hapus i nodi nad yw'r erlyniad a gymerwyd yn erbyn Melvin Kitchen, a nodir yn y rhifyn diwethaf o Newsline, mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â pherchennog blaenorol Val's Wool Shop, Aberbargod.

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau

Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid aildefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

No Cold Calling!

Trading Standards team has introduced a further 21 No Cold Calling Zones within Caerphilly county borough over the last year.

Dim Galw Heb Wahoddiad!

Mae tim Safonau Masnach y cyngor wedi cyflwyno 21 o Barthau Dim Galw Heb Wahoddiad pellach o fewn bwrdeistref sirol Caerffili dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r parthau newydd yn ychwanegiad i'r 38 sydd mewn bodolaeth yn barod. Gellir cael manylion o'r holl ardaloedd ar www.caerffili.gov.uk neu trwy ffonio **01495 235 291.**

These new zones are in addition to the 38 already in existence. Details of all the areas covered can be found at www.caerphilly.gov.uk or by calling **01495 235 291.**